Crynodeb

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth i rym yn llawn fis Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn creu hawl mynediad at wybodaeth swyddogol ac yn gosod ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gyhoeddi gwybodaeth yn unol â "chynlluniau cyhoeddi". Yn ogystal â hyn, mae'r Ddeddf yn annog pob awdurdod cyhoeddus i gynnal eu cofnodion yn unol â darpariaethau Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 46 o'r Ddeddf ac sydd yn cynnig canllawiau ar yr arferion y byddai'n ddymunol, yn ei farn ef, iddynt eu dilyn o ran cadw, rheoli a gwaredu cofnodion (y cyfeirir ato o hyn allan fel y Cod Rheoli Cofnodion).

Datblygwyd y llyfr gwaith gwerthuso hwn gan yr Archifau Cenedlaethol (TNA) i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i asesu cydymffurfiad eu systemau rheoli cofnodion â'r Cod Rheoli Cofnodion.

Mae'r llyfr gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd a restrir yn y cod rheoli cofnodion fel meysydd ar gyfer gweithredu. Diffinnir y pwyntiau gweithredu'n fanylach yn y cynlluniau gweithredu model. Dyma hwy:

- Swyddogaeth rheoli cofnodion
- Datganiad polisi rheoli cofnodion
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth
- Creu a chadw cofnodion
- Cynnal cofnodion
- Gwaredu cofnodion
- Trefniadau mynediad i reoli ceisiadau RhG (rhan o Greu a chadw cofnodion er ei bod yn fwy cyfleus ei thrin ar wahân)

Mae hefyd yn cynnwys modiwl sydd yn ymdrin â:

- Rheoli perfformiad

Wrth lenwi'r holiadur sydd yn y llyfr gwaith hwn caiff i sefydliadau sefydlu i ba raddau y cydymffurfiant â'r Cod Rheoli Cofnodion. Mae hefyd yn cynnig ffordd o werthuso lefel y risg a wyneba'r sefydliad os nad yw'n rheoli ei gofnodion mewn cydymffurfiaeth â'r Cod Rheoli Cofnodion, ac yn ystyried pa strategaethau lliniaru a fyddai'n addas.

Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf y llyfr gwaith hwn yn dilyn cyhoeddi drafft ymgynghorol yn 2005. Bu'r sylwadau a'r cyfraniadau, a gydnabyddir yn ffurfiol yma, yn sail i'r adolygiad sydd wedi esgor ar y fersiwn hon. Wrth i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r llyfr gwaith hwn at ddibenion hunanasesiad, y gobaith yw y bydd eu profiad yn arwain at gyflwyno mwy o sylwadau ac adborth i'r Archifau Cenedlaethol, a fydd yn sail i ni wneud gwelliannau pellach. Gofynnir i'r sawl sydd am

gynnig sylwadau ar y ddogfen hon neu sydd am ragor o wybodaeth neu gymorth ynglŷn â swyddogaeth y llyfr gwaith hwn anfon pob sylw neu ymholiad at yr Archifau Cenedlaethol:

rmadvisory@nationalarchives.gov.uk

Cyflwyniad

Y Cyd-destun Statudol

1.1 Daeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) i rym yn llawn fis Ionawr 2005. Mae'n creu hawl mynediad at wybodaeth swyddogol ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth yn unol â "chynlluniau cyhoeddi".

1.2 Mae'r Arglwydd Ganghellor, yn unol ag adran 46 y DRhG, wedi cyhoeddi cod ymarfer ynglŷn â rheoli cofnodion mewn awdurdodau perthnasol (sef awdurdodau cyhoeddus a chyrff eraill sydd â'u cofnodion gweinyddol ac adrannol yn "gofnodion cyhoeddus" yn ôl diffiniad Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958). Mae dwy ran i'r Cod hwn:

- Mae Rhan I yn amlinellu arferion y dylai 'awdurdodau perthnasol' eu dilyn o ran creu, cadw, rheoli a gwaredu eu cofnodion. Yr 'awdurdodau perthnasol' yw awdurdodau cyhoeddus RhG ac unrhyw gyrff eraill sydd, er eu bod yn rhydd o ddyletswyddau o dan y DRhG, yn dod o fewn Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1923
- Mae Rhan II yn disgrifio'r trefniadau y dylai cyrff cofnodion cyhoeddus eu dilyn wrth adolygu cofnodion cyhoeddus a'u trosglwyddo i'r Archifdy Gwladol (Yr Archifau Cenedlaethol bellach) neu i fannau adneuo neu i Archifdy Gwladol Gogledd Iwerddon (Rhan II y Cod).

1.3 Bwriedir i'r llyfr gwaith hwn gael ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiad â Rhan I y Cod Ymarfer y cyfeirir ato uchod (a chyfeirir o hyn allan at y Cod Ymarfer fel y Cod Rheoli Cofnodion) yn unig ac mae'n berthnasol i'r holl awdurdodau cyhoeddus sydd yn dod o dan y DRhG. Ceir canllawiau ar wahân ar gyfer Rhan II y Cod. Mae copi o'r Cod Rheoli Cofnodion ar gael ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol:

http://www.dca.gov.uk/foi/codesprac.htm

1.4 Mae TNA wedi cynhyrchu, neu wedi cydweithio yn y gwaith o gynhyrchu, cynlluniau gweithredu model i gynorthwyo gwahanol rannau o'r sector gyhoeddus i gydymffurfio â'r Cod Rheoli Cofnodion; maent i'w gweld ar wefan TNA:

http://www.nationalarchives.gov.uk/policy/foi/

1.5 Yn ôl Adran 47(1) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Gwybodaeth hyrwyddo awdurdodau cyhoeddus i gadw at y cod ymarfer ac mae adran 47(3) yn caniatáu iddo, os bydd awdurdod yn cydsynio, asesu a ddilynir arfer da ai peidio.

1.6 Os bydd y Comisiynydd o'r farn nad yw awdurdod yn rheoli ei gofnodion yn unol â'r Cod Rheoli Cofnodion, gall gyhoeddi argymhelliad ymarfer dan adran 48 y DRhG. Rhaid i argymhelliad ymarfer fod mewn ysgrifen a rhaid iddo fanylu ar ba rannau o'r Cod nad ydynt wedi eu cyflawni a'r camau sydd i'w cymryd, yn ei farn ef, er mwyn sicrhau cydymffurfiad.

1.7 Os bydd y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth i asesu a yw rheoli cofnodion awdurdod yn cydymffurfio â'r Cod Rheoli Cofnodion ai peidio, gall gyhoeddi 'rhybudd gwybodaeth' dan adran 51 y DRhG. Mae hyn yn gosod gofyniad ar yr awdurdod i ddarparu gwybodaeth benodol erbyn dyddiad penodol.

1.8 Mae'r angen am ganfod ble mae gwybodaeth a'i hadalw wedi dod yn bwysicach oherwydd RhG. Ni ellir cyflawni gofynion adrannau 1 ac 16 o DRhG 2000 a'r arfer da a osodir allan yng Nghod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 45 y Ddeddf ynglŷn â Chyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus dan Ran 1 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth os nad oes systemau digonol ar gyfer cadw cofnodion fod wedi eu sefydlu.

1.9 Yn ychwanegol at hyn, os nad yw awdurdodau yn cydymffurfio â'r Cod Rheoli Cofnodion efallai na fyddant yn cydymffurfio ychwaith â deddfwriaeth arall megis Deddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967, Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd

Iwerddon) 1923, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985.

1.10 Gall rhai awdurdodau cyhoeddus hefyd fod yn ddarostyngedig i drefniadau statudol neu reoliadol eraill neu i fentrau sylweddol megis y rhaglen Moderneiddio Llywodraeth. Bydd angen i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd, er enghraifft, gymryd sylw o'r drefn lywodraethol ar gyfer gwybodaeth, a fydd yn cael ei gweithredu gan Brosiect Llywodraethu Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol. Bydd rheoli cofnodion yn effeithiol yn hwyluso cydymffurfio â'r ymrwymiadau eraill hyn. Ym Mhennod **Error! Reference source not found.**, ceir rhagor o wybodaeth am ganllawiau a rheoliadau sector-benodol ynglŷn â rheoli cofnodion a gwybodaeth sydd yn berthnasol i.

Swyddogaeth yr Archifau Cenedlaethol (TNA)

1.11 Mae adran 47 y DRhG yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Gwybodaeth *ymgynghori â'r Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus am sut mae'r Comisiynydd am hyrwyddo awdurdodau cyhoeddus i gadw darpariaethau'r cod ymarfer dan adran 46*. Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, er mwyn cefnogi'r drefn hon, rhwng y Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus a'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddiffinio eu perthynas a sefydlu fframwaith gweithredu a fydd yn datblygu'u berthynas yn ymarferol.

1.12 Dywed y memorandwm, mewn perthynas ag archwilio ac asesu cydymffurfiad â Rhan I y Cod Rheoli Cofnodion:

- Y prif ddull o fonitro cydymffurfiad fydd hunan-asesiad gan awdurdodau cyhoeddus.
- Gall y Comisiynydd ofyn i'r Ceidwad wneud asesiadau o gydymffurfiad â'r Cod Rheoli Cofnodion ar ei ran. Gellir ffurfioli'r trefniadau am asesiadau o'r fath trwy gyfrwng cytundeb lefel gwasanaeth.
- Gall y Ceidwad archwilio awdurdodau penodedig, yn unol â chanllawiau a wnaed gan y Comisiynydd ar gyfer archwiliadau o'r fath.

1.13 Mae'r Archifau Cenedlaethol (TNA) wedi cynhyrchu'r llyfr gwaith gwerthuso hwn i gefnogi'r awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt asesu eu cydymffurfiad â'r Cod Rheoli Cofnodion.

1.14 Datblygir rhaglen ar wahân ar hyn o bryd, i'w gweithredu yn ystod haf 2006, er mwyn asesu cydymffurfiad a'r Cod Rheoli Cofnodion yn adrannau canolog y llywodraeth. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y risgiau sydd yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfiad a bydd ar ffurf asesiad targededig ar feysydd rheoli cofnodion penodol sydd, wedi asesiad cychwynnol, yn ymddangos fel rhai sydd yn cynnig risg sylweddol i'r sefydliad. Bydd yr asesiad yn cynnwys cyfres o gyfweliadau gyda staff adrannol a gaiff eu dadansoddi ar gyfer adroddiad a gyflwynir i un o uwch-reolwyr y sefydliad. Bydd yr adroddiad ar ffurf asesiad risg lefel uchel gydag argymhellion ar gyfer lliniaru'r risgiau.

1.15 Mae offer yn cael eu datblygu i gefnogi'r rhaglen, gan gynnwys holiadur asesiad risg lefel uchel, sgriptiau i'w defnyddio yn y cyfweliadau asesu a thempled ar gyfer yr asesiad risg neu adroddiad terfynol. Gallai'r rhain fod o ddefnydd i awdurdodau cyhoeddus y tu allan i'r llywodraeth ganolog i gefnogi eu gweithgareddau asesu cydymffurfiad eu hunain; byddant ar gael ar wefan yr Archifau Cenedlaethol (TNA) yn ystod 2006.

Cynulleidfa

1.16 Bwriedir y llyfr gwaith hwn at sefydliadau a ddaw o fewn gofynion DRhG neu un o'r Deddfau Cofnodion Cyhoeddus ond gallai hefyd fod o ddefnydd i gyrff eraill. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan rai sydd yn gwneud asesiad o gydymffurfiad, a disgwylir y bydd y rhain yn rheolwyr cofnodion, rheolwyr gwybodaeth neu archwilwyr mewnol ac allanol.

1.17 Mae awdurdodau cyhoeddus RhG yn cynnwys:

- adrannau, asiantaethau a chyrff cyhoeddus anadrannol y llywodraeth ganolog,
- awdurdodau llywodraeth leol,
- y sector addysg (ysgolion, cyrff addysg bellach ac addysg uwch),
- y gwasanaeth iechyd,
- heddluoedd,
- unrhyw gorff arall a ddiffinnir fel awdurdod cyhoeddus yn unol â'r DRhG,
- unrhyw gorff sydd yn gorff cofnodion cyhoeddus yn unol ag un o'r Deddfau Cofnodion Cyhoeddus.

1.18 Mae rhestr gyfoes o awdurdodau cyhoeddus RhG ar gael ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA):

http://www.dca.gov.uk/foi/coverage.htm

1.19 Dichon y bydd y canllawiau'n ddefnyddiol i gyrff eraill, nad ydynt yn dod o fewn y Ddeddf, wrth iddynt werthuso eu polisïau a'u gweithdrefnau rheoli cofnodion, er y dylid nodi'r posibilrwydd y byddai gan y cyrff hyn anghenion eraill nad ydynt wedi eu cynnwys yn y canllawiau hyn.

Pwrpas

1.20 Er mwyn cefnogi'r darpariaethau hyn, mae TNA wedi datblygu methodoleg archwilio, sef yr hyn a geir yn y llyfr gwaith gwerthuso ar gyfer asesu arferion rheoli cofnodion.

1.21 Canolbwyntia'r llyfr gwaith ar feysydd allweddol y Cod Rheoli Cofnodion, sef:

- Swyddogaeth rheoli cofnodion
- Datganiad polisi rheoli cofnodion
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth
- Creu a chadw cofnodion
- Cynnal cofnodion
- Gwaredu cofnodion
- Trefniadau mynediad i reoli ceisiadau RhG (rhan o Greu a chadw cofnodion er ei bod yn fwy cyfleus ei thrin ar wahân)

Mae hefyd yn cynnwys modiwl sydd yn ymdrin â:

- Mesur perfformiad

1.22 Bydd llyfr gwaith, wedi ei gwblhau, yn datgan i ba raddau y mae arferion rheoli cofnodion yn cydymffurfio â'r Cod Rheoli Cofnodion ac yn fecanwaith i werthuso lefel y risg i'r sefydliad a achosir gan reoli cofnodion nad yw'n cydymffurfio â'r Cod Rheoli Cofnodion. Bydd hefyd yn fodd o gynnal trywydd archwiliad am gydymffurfiad.

1.23 Bwriedir i'r llyfr gwaith gael ei ddefnyddio waeth pa mor fach neu gymhleth yw'r sefydliad a asesir. Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd perthnasedd rhai elfennau'n ddibynnol ar rôl, cymhlethdod a maint yr awdurdod cyhoeddus. Lle bo'r elfennau'n berthnasol, dylai fod yn bosibl i ganfod effaith y risg a pha mor effeithiol fyddai'r adnodd argyfwng a glustnodwyd i'w liniaru neu ei osgoi.

1.24 Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer cofnodion, papur a digidol, yn cynnwys y rhai a ddelir mewn system reoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS). Cymerir yn ganiataol, fodd bynnag, y bydd sefydliadau'n dibynnu'n gynyddol ar wybodaeth electronig ac mae'r llyfr gwaith yn adlewyrchu'r angen am reoli cofnodion ffisegol neu electronig mewn modd gymwys. Lle mae awdurdod wedi gweithredu, neu yn gweithredu, system EDRMS dylai'r llyfr gwaith gynnwys y dystiolaeth ychwanegol sydd yn angenrheidiol i ddilysu defnydd o system o'r fath, yn ogystal â systemau rheoli cofnodion awdurdodau cyhoeddus lle nad oes system felly ar waith.

1.25 Os ydych am fwy o wybodaeth neu gymorth gyda'r llyfr gwaith hwn, cysyllter â:

rmadvisory@nationalarchives.gov.uk